**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth
Llywodraeth Cymru

18 Medi 2023

**Presenoldeb Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth**

Annwyl Dawn,

Yn dilyn adroddiadau diweddar am bresenoldeb concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth ("RAAC") yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, hoffai'r Pwyllgor ofyn nifer o gwestiynau i chi ynghylch RAAC mewn meysydd yn eich portffolio gweinidogol.

Yn ei **ddatganiad** ar RAAC yn Neuadd Dewi Sant, mae Cyngor Caerdydd yn nodi ei fod yn ymwybodol o'r sefyllfa er 2021. Mae'n nodi ei fod hefyd wedi bod yn ymwybodol o'r "angen i'w reoli o safbwynt iechyd a diogelwch ers 2021, ac mae bob amser wedi dilyn canllawiau a chyngor y llywodraeth i sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel".

Byddwch hefyd yn ymwybodol o **bryderon** y Pwyllgor am y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i ddiogelu ein casgliadau cenedlaethol yn Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Nid yw'n glir i ni a oes unrhyw ran o'r gwaith cyfalaf a nodwyd yn flaenorol yn gysylltiedig â RAAC ai peidio.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn effro i'r posibilrwydd bod problemau gyda RAAC yn effeithio ar adeiladau lleoliadau diwylliannol a chwaraeon faterion. Gall lleoliadau o'r fath gynnwys adeiladau timau chwaraeon neu theatrau lleol er enghraifft.

Hoffai'r Pwyllgor wybod y canlynol:

- Pa asesiad gafodd ei wneud gan eich swyddogion cyn yr haf eleni a pha asesiad a wnaed ers mis Medi 2023 o bresenoldeb RAAC mewn adeiladau sy'n helpu i gyflawni'r amcanion polisi sy'n rhan o'ch portffolio gweinidogol, er enghraifft safleoedd Amgueddfa Cymru ac adeiladau canolfannau hamdden awdurdodau lleol?

- Yn dilyn unrhyw asesiadau o'r fath, a nodwyd unrhyw risgiau uniongyrchol i weithwyr neu'r cyhoedd? Os felly, a allech ddarparu rhestr o'r adeiladau sydd mewn perygl a'r camau a gymerwyd i ddileu'r risgiau a nodwyd?

- Os nodwyd enghreifftiau o bresenoldeb RAAC ers yr haf, beth yw'r gost a ragwelir ar gyfer unioni'r materion a nodwyd a phwy fyddai'n gyfrifol am ysgwyddo'r costau hyn?

Yn olaf, bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru sydd o fewn ei gylch gwaith i ofyn am unrhyw wybodaeth sydd ganddynt am bresenoldeb RAAC yn eu sectorau. Yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 12 Medi 2023, **dywedodd** y Prif Weinidog, "…liabilities that are incurred because of decisions made prior to devolution remain the responsibility of the UK Government". Fodd bynnag, mae **gwefan** Llywodraeth Cymru'n nodi, "Mae Trysorlys y DU wedi dweud na fydd arian newydd i ddelio â RAAC". Yng ngoleuni hyn, hoffai'r Pwyllgor wybod:

- Pa gynlluniau sydd gennych ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon uniongyrchol yn ymwneud â RAAC yn yr adeiladau hynny yn y sector cyhoeddus yng Nghymru sydd o fewn eich cylch gwaith gweinidogol?

- Pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i greu cronfa adfer sy'n gysylltiedig â RAAC i helpu sefydliadau nad ydynt yn rhan o Lywodraeth Cymru, megis lleoliadau chwaraeon a diwylliant, gyda'r gost o ddileu unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â RAAC?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.